

Uned 20 iii

Bolysu

Taflen Wybodaeth

Y Bolws

Cyflwyniad

Yn ôl Wikipedia mae **bolws** yn.....

'dabled fawr rhyddhau-araf sy'n aros mewn rwmnau gwartheg, geifr a defaid'

Sawl math o folysau sydd?

- bolysau rhyddhau-araf anthelmintig (llynghyrwy)
- mwynau atodol
- bolysau adnabod.

1. Rhyddhau-araf Anthelmintig (Llynghyrwy)

- bolysau rhyddhau pŷls - aml-llynghyrwy
- rhoi dos o'r llynghyrdd ar gyfnodau penodol
- lladd llyngyr main gastroberfeddol yn oedolion a rhai anaeddfed, llyngyr yr ysgyfaint a llyngyr rhuban

2. Mwynau Atodol

a) Magnesiwm e.e. *Rumbul*

- yn cael ei argymhell ar gyfer gwartheg a defaid llawn dwf wrth bori mewn tir sy'n tyfu'n gyflym yn y gwanwyn, pan mae cyfnod diffiniedig pendant o risg uchel detanedd porfa/dera'r borfa e.e. - *rumbul*.

b) Bolws Elfennau Hybrin Cyfunol e.e. *CoSeCure*

- yn cynnwys cymysgedd o elfennau hybrin
- yn cael ei ryddhau'n araf drwy'r tymor.

3. Cod Adnabod Electronig trwy ddefnyddio Bolws Trawsatebwr

- wedi ei wneud o ddeunydd ceramig
- trawsatebwr amledd radio - microsglodyn â chylched electronig, coil a chynhwysydd - y cyfan yn wrth-ddŵr ac wedi eu selio â silicôn
- mae'r bolws yn cael ei actifadu gan signal radio a anfonir allan gan "ddarllenydd" ac yna'n rhoi cod adnabod i'r gweithredwr wedi ei gyn-raglenni.

Dull Cywir Rhoi'r Bolws

Gwartheg a Defaid

- rhoi drwy'r geg trwy ddefnyddio Gosodwr Bolws, sy'n gosod y bolws yn uniongyrchol ar dop y corn gwddf
- dylai'r gosodwr gael ei fewnosod y tu blaen i'r geg, dros gefn y tafod, a **dim ond gwasgu'n dynned a chadarn yn unig**
- fel mae'r anifail yn dechrau llyncu blaen y dryll/gwn, mae'r daith i lawr y corn gwddf yn dod yn hawsach
- mae'r gosodwr nawr mewn sefyllfa tanio. Gwasgwch y glicied i ryddhau'r bolws
- gwnewch yn siŵr fod pob anifail wedi llyncu'r bolws trwy ddal y pen i fyny a'r geg wedi ei chau, ac arsylwi ar yr anifail am amser byr ar ôl y dosio
- dylech fod yn ofalus i beidio ag achosi niwed i'r anifail trwy osod y dryll/gwn yn rhy bell i mewn i gorn gwddf.

